# CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 28 Mehefin 2016 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr: Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros yr Economi; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol dros Wasanaethau Gofal Cymdeithasol, Oedolion a Phlant; Hugh Irving, Aelod Arweiniol dros Gwsmeriaid a Llyfrgelloedd; Barbara Smith, Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Thai; David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus; Julian Thompson Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid, Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad ac Eryl Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros Addysg.

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr Ray Bartley, Bill Cowie, Ann Davies, Meirick Davies, Arwel Roberts, Huw Williams a Mark Young

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Economi a Pharth Cyhoeddus (RM); Penaethiaid Gwasanaeth: Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GW) a Gwella Busnes a Moderneiddio (AS); Reolwr Eiddo (DL); Prif Swyddog Cyllid (RW), a Gweinyddwr y Pwyllgor (KEJ)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd Huw Jones, Aelod Arweiniol ar gyfer Datblygu Cymunedol

## 2 DATGANIADAU O GYSYLLTIAD

Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan.

## 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 24 Mai 2016.

***PENDERFYNWYD y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mai 2016 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.***

## 5 CYNLLUN DIRPRWYO I AELODAU ETHOLEDIG

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd yr adroddiad yn gofyn am gytundeb y Cabinet i newid y ffordd y gwneir penderfyniadau dirprwyedig a natur y ddirprwyaeth i Aelodau Arweiniol.

Eglurwyd y rhesymeg y tu ôl i'r newidiadau arfaethedig er mwyn gwneud y broses ar gyfer dirprwyo penderfyniadau yn fwy tryloyw.  Tynnwyd sylw'r Cabinet at y prif newidiadau a gynigir ar gyfer dirprwyo penderfyniadau a graddau cysylltiad aelodau eraill yn y broses honno.  Fel y cytunwyd yn flaenorol, roedd y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion a gymeradwywyd yn ddiweddar wedi'i ddosbarthu i'r holl aelodau i gael eu sylwadau, fodd bynnag, nid oedd adborth wedi'i dderbyn.

Croesawodd y Cabinet y newidiadau arfaethedig i'r broses dirprwyo penderfyniadau i sicrhau mwy o dryloywder o ran gwneud penderfyniadau a chyfranogiad pob aelod yn gynharach yn y broses, gan roi cyfle i fewnbynnu a dylanwadu ar ganlyniadau. Yn ystod y drafodaeth gofynnwyd am eglurhad pellach ar nifer o faterion gan gynnwys penderfyniadau brys, cyfrinachedd, a chynnwys aelodau'n ehangach cyn i benderfyniadau 'allweddol' gael eu gwneud.

Ymatebodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd fel a ganlyn -

- ymhelaethodd ar y darpariaethau presennol o ran penderfyniadau brys y tu allan i amserlenni arferol mewn achosion lle'r oedd risg o effaith sylweddol ynghyd ac eithrio o'r weithdrefn 'galw i mewn'
- eglurodd y byddai gwybodaeth am ddirprwyo penderfyniadau yn cael ei gyhoeddi ar fewnrwyd y Cyngor gyda mynediad cyfyngedig a byddai'r rheolau arferol ynghylch cyfrinachedd yn berthnasol; Roedd Rheolau Gweithdrefn Contractau yn cynnwys set benodol o awdurdodiadau mewn perthynas â dyfarnu tendrau a chontractau
- byddai'r broses ddiwygiedig yn darparu'r hyblygrwydd i gynnwys aelodau yn well o fewn y broses o wneud penderfyniadau, yn enwedig aelodau nad oeddent yn y Cabinet, a chaniatáu i Aelodau Arweiniol a Phenaethiaid Gwasanaeth i lunio barnau ynghylch a oes angen cyfranogiad pellach gan aelodau ar benderfyniadau dadleuol penodol cyn i benderfyniad terfynol gael ei wneud - yn ei hanfod barn wleidyddol fyddai hyn a byddai canllawiau pellach yn cael eu cynhyrchu yn y cyswllt hwnnw
- atebwyd cwestiynau hefyd o ran dirprwyo penderfyniad i swyddog ynghylch taliadau meysydd parcio a chadarnhawyd bod y broses gywir wedi ei dilyn yn yr achos hwnnw; y cynnig a oedd yn mynd rhagddo oedd, mewn achosion lle mae penderfyniadau wedi cael eu cyfeirio at aelodau am eu barn, bod adroddiad byr yn cael ei gyhoeddi yn nodi'r penderfyniad o bryd fyddai'r cyfnod galw i mewn yn berthnasol.

Amlygodd y Prif Weithredwr bwysigrwydd bod pob aelod yn gyfarwydd â'r broses dirprwyo penderfyniadau ac i ymgysylltu'n weithredol â hi a mynegodd beth pryder nad oedd unrhyw adborth wedi ei dderbyn oddi wrth yr aelodau ar ôl dosbarthu'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion.  Yn yr un modd roedd yn teimlo bod angen i swyddogion fod yn well am ragweld y penderfyniadau hynny a ddylai gael eu dwyn gerbron yr aelodau, yn enwedig y rhai gyda dimensiwn gwleidyddol.  Cytunwyd bod y Cynllun Dirprwyo i Aelodau Arweiniol diwygiedig yn cael ei ddosbarthu i bob aelod yn tynnu sylw at bwysigrwydd y ddogfen ac ymgysylltiad yr aelodau o fewn y broses dirprwyo penderfyniadau.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cytuno ar y Cynllun Dirprwyo Aelod Arweiniol sydd ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad a'r trefniadau i wneud penderfyniadau dirprwyo fel y nodir yn Atodiad 2 i'r adroddiad.*

**6 RHEOLAU'R WEITHDREFN CONTRACTAU - NEWID ARFAETHEDIG I'R TROTHWYON AWDURDODI SWYDDOGION**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn gofyn i'r Cabinet gadarnhau'r cynnig i newid trothwyon awdurdodi swyddog yn Rheolau Gweithdrefn Contractau'r Cyngor cyn ei ystyried gan y Cyngor llawn ar 5 Gorffennaf 2016 fel rhan o'r eitem ehangach ar y cyfansoddiad diwygiedig.

Roedd y newid yn cael ei gynnig am resymau ymarferol ac effeithlonrwydd yn dilyn dadansoddiad pellach o niferoedd contractau a mewnbwn gan Benaethiaid Gwasanaeth. Nid oedd yn cynnig unrhyw newidiadau i'r trothwyon ariannol lle mae Aelodau'n cymryd rhan yn y broses awdurdodi.

Ystyriodd y Cabinet yr adroddiad ac mewn ymateb i gwestiynau dywedwyd wrth yr aelodau y byddai'r newid yn lleihau nifer y contractau sydd angen awdurdodiad Swyddog Adran 151 a Monitro Swyddog o 1200 i lai na 100. Byddai codi'r trothwy o £ 25k i £ 250k hefyd yn dod â gwerth yn unol ag awdurdodiad y rhan fwyaf o Benaethiaid Gwasanaeth i gymeradwyo gwariant a darparu lefel gyson o awdurdod. Byddai contractau yn dal i fod yn amodol ar y prosesau archwilio a monitro arferol.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo'r diwygiad arfaethedig i'r Rheolau'r Weithdrefn Contractau fel y nodwyd yn yr adroddiad.*

**7 ADRODDIAD PERFFORMIAD Y CYNLLUN CORFFORAETHOL – CHWARTER 4 – 2015/16**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad ar gyflawni Cynllun Corfforaethol 2012 - 17 ar ddiwedd chwarter 4 o 2015/16.

Roedd yr adroddiad perfformiad yn darparu crynodeb o ran sefyllfa pob canlyniad ynghyd â dadansoddiad o'r eithriadau allweddol. Roedd yr holl ganlyniadau wedi'u gwerthuso fel derbyniol neu well ac roedd eglurhad ar gyfer statws pob dangosydd wedi'i gynnwys gyda materion allweddol wedi'u hegluro ymhellach yn y cyfarfod. Er mae'n debygol y byddai bob amser rai targedau unigol yn cael eu methu, roedd yr adroddiad yn gyffredinol yn gadarnhaol iawn. Parhaodd y Pwyllgor Archwilio Perfformiad i fonitro'r adroddiadau perfformiad yn rheolaidd.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y meysydd canlynol -

- ni ellid darparu data ar allyriadau carbon o hyd oherwydd namau cynharach yn system filio Nwy Prydain ond roedd biliau cywir yn dechrau dod drwodd a'r gobaith oedd y gellid adrodd gwybodaeth am ddefnydd ynni'r llynedd y mis canlynol.
- Gofynnwyd a oedd gostyngiad y Cyngor mewn allyriadau carbon wedi bod o ganlyniad i'r rhaglen rhesymoli adeiladau neu waith parhaus i sicrhau bod

adeiladau yn fwy effeithlon. Cytunodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill i edrych i mewn i'r mater ymhellach ac adrodd yn ôl. Roedd y Cynghorydd David Smith yn falch o nodi cynnydd o ran gwella ffyrdd y sir ond amlygodd ei fod wedi bod yn bosibl yn unig oherwydd bod cyllid ychwanegol wedi'i ddyrannu'n benodol ar gyfer y diben hwnnw - gofynnodd am ystyriaeth gael ei roi i gynyddu'r gyllideb sylfaenol i ddiogelu yn erbyn dirywiad pellach. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod ansawdd ffyrdd ar hyn o bryd yn un o brif flaenoriaethau'r Cyngor ac roedd yn hyderus y byddai'r targed ar gyfer ffyrdd o safon gwell ar y cyfan yn 2017 o'i gymharu â 2012 yn cael ei gyflawni yn y flwyddyn ariannol nesaf. Byddai blaenoriaethau a chyllidebau'r dyfodol yn ystyriaeth ar gyfer y Cyngor nesaf. Cododd y Cynghorydd Bill Cowie bryderon parhaus am gyflwr yr A525 ac roedd yn aros i weld a oedd sicrwydd a gafodd ynghylch ei thrwsio yn cael ei wireddu.

- argaeledd band eang cyflym iawn - roedd yr aelodau yn siomedig bod y dangosydd hwn yn parhau i fod yn goch a nododd ei fod yn brosiect rhwng Llywodraeth Cymru a BT i'w gyflawni. Roedd cynnydd o ran cyflwyno wedi cael ei archwilio a'i drafod gyda chynrychiolwyr BT mewn cyfarfod diweddar o'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad ac adroddodd y Prif Weithredwr ar y canlyniadau allweddol. Roedd y targed gwasanaeth yn ymwneud ag ardaloedd penodol ac nid y sir gyfan - felly roedd angen ymgysylltu â'r trigolion hynny a oedd yn disgwyl i elwa ac na fyddent yn cael mynediad. Gwrthododd swyddogion Llywodraeth Cymru i fynychu'r cyfarfod archwilio ac roedd yn bwysig eu bod yn cael eu dwyn i gyfrif ac yn darparu ar y prosiect
- er gwaethaf yr adroddiad perfformiad cadarnhaol ar y cyfan a'r buddsoddiad sylweddol a wnaed gan y Cyngor mewn prosiectau penodol fel adeiladau ysgolion, nodwyd bod canran y trigolion sy'n ymateb yn gadarnhaol i'r datganiadau sy'n ymwneud â (1) bod y Cyngor yn effeithlon ac yn cael ei redeg yn dda, a (2) yn gweithredu ar bryderon trigolion, wedi cael eu hamlygu fel dangosyddion coch. Cafwyd rhywfaint o drafodaeth ar y gwahaniaeth rhwng realiti'r sefyllfa a chanfyddiad y trigolion. Teimlwyd bod y cyhoeddusrwydd a gynhyrchir gan benderfyniadau mwy amhoblogaidd y Cyngor yn gorbwyso'r straeon newyddion da ac roedd yn her barhaus i newid canfyddiadau trigolion yn hynny o beth. Teimlwyd y dylai'r Cyngor fod yn fwy rhagweithiol wrth ymateb i negyddoldeb ac y dylai hyrwyddo'r gwaith da a'r buddsoddiad sylweddol a wnaed er budd trigolion y sir
- hefyd, cafwyd trafodaethau ar effaith canlyniad refferendwm yr UE i adael yr UE gyda swyddogion yn dechrau dadansoddi'r effaith bosibl ar gyllidebau ac ymgymryd â phroses asesu - cytunodd y Prif Weithredwr i adrodd yn ôl ar y gwaith wrth iddo ddatblygu.

Diolchodd y Cynghorydd Thompson-Hill i'r aelodau am eu hystyriaethau a'u mewnbwn.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn derbyn yr adroddiad ac yn nodi'r cynnydd o ran cyflawni Cynllun Corfforaethol 2012-17 ar ddiwedd chwarter 4 o 2015/16.*

Ar y pwynt hwn (11.30 am) cymerodd y cyfarfod egwyl am luniaeth.

## 8 CANLYNIAD REFENIW TERFYNOL 2015/16

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad ar y sefyllfa alldro refeniw terfynol am 2015/16 a’r driniaeth arfaethedig o gronfeydd wrth gefn a balansau.

Tywyswyd yr aelodau drwy fanylion yr adroddiad a'r atodiadau. Yn gryno dangosodd y sefyllfa alldro gyffredinol danwariant yn erbyn y gyllideb gymeradwy a oedd yn cryfhau sefyllfa ariannol y Cyngor, ynghyd â gwell incwm o'r dreth gyngor nag y rhagwelwyd. O ganlyniad, mae’n bosibl gwneud argymhellion i wasanaethau gario balansau ymlaen a throsglwyddo i arian wrth gefn penodol a fydd yn parhau i helpu i fynd i’r afael â phwysau ariannol y blynyddoedd nesaf. Tra bu tanwariant cyffredinol ar draws y gwasanaethau unigol a meysydd corfforaethol, dangosodd cyllideb ddirprwyedig yr ysgolion orwariant sylweddol (a ragwelir). Roedd y sefyllfa derfynol gyda chyllidebau corfforaethol a gwasanaeth (gan gynnwys ysgolion) yn orwariant o £0.387m (0.2% o gyllideb refeniw net). Cyfeiriwyd hefyd at y trosglwyddiadau i ac o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a thynnwyd sylw'r Cabinet i nifer o drafodion diwedd y flwyddyn a argymhellwyd i'w gymeradwyo.

Cynghorwyd y Cabinet o'r canlyniadau cadarnhaol o ran bod y Cyngor wedi bod mewn sefyllfa i sefydlu amryw o gronfeydd wrth gefn a dwyn ymlaen arian er mwyn cwrdd â gofynion y gwasanaeth tra hefyd yn cyflawni y rhan fwyaf o'r targed arbedion ar gyfer 2015/16. Roedd y cronfeydd wrth gefn a adeiladwyd i gyflawni'r Cynllun Corfforaethol wedi'i gostwng yn sylweddol eleni wrth i’r ymrwymiadau hynny barhau i gael eu datblygu. Yn olaf, cyfeiriwyd at y risgiau o gwmpas balansau ysgolion o ystyried y sefyllfa ariannol sy'n gwaethygu ar gyfer ysgolion.

Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth a ddilynodd -

- cafwyd rhywfaint o drafodaeth ar yr effaith ariannol ar ysgolion oherwydd gostyngiad yn y cyllid grant gan Lywodraeth Cymru, yn enwedig o ran y cyfnod sylfaen a oedd yn cael effaith sylweddol ar ysgolion babanod, ac roedd materion yn ymwneud demograffeg a chyllid ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol hefyd.
- Nodwyd y byddai ysgolion mewn diffyg ariannol yn ddarostyngedig i gynlluniau adfer ariannol a chyfeiriwyd hefyd at rôl y Fforwm Cyllideb Ysgolion wrth gefnogi ysgolion. Fodd bynnag, amlygwyd y pwysigrwydd o sicrhau bod pob ysgol yn gweithio'n effeithiol wrth symud ymlaen er mwyn cynllunio ar gyfer heriau yn y dyfodol gydag ysgolion eraill yn bryderus am gyllid yn y dyfodol. Cytunodd yr Aelodau bod angen deall yr holl ffactorau sy'n cyfrannu at y sefyllfa ar falansau ysgolion a theimlwyd y dylai mwy o waith gael ei wneud i ganfod y sefyllfa bresennol ysgolion a’r sefyllfa yn y dyfodol. Cytunwyd bod y Cabinet yn cymryd y rôl honno ymlaen drwy sefydlu grŵp tasg a gorffen a ddylai hefyd gynnwys cynrychiolwyr archwilio. Nodwyd bod y Cyngor wedi rhagori ar y lefel statudol o ddiogelwch a roddiwyd i ysgolion dros y 4/5 mlynedd diwethaf a bod y cyllid fesul disgybl yn Sir Ddinbych yn uwch nag yn yr awdurdodau lleol cyfagos. Amlygwyd hefyd yr angen i ddarparu cymorth i ysgolion a llywodraethwyr ysgolion, a chyfeiriwyd at yr adolygiad o'r Polisi Cludiant o’r Cartref i'r Ysgol i gael ei ystyried yn y Pwyllgor Archwilio Cymunedau yn ddiweddarach yn yr wythnos a'r goblygiadau ariannol posibl a fyddai’n deillio o newidiadau i'r polisi presennol. Dywedodd y Prif Swyddog Cyllid, er bod ffigwr dangosol wedi'i ddarparu, ni fyddai amcangyfrif fwy manwl gywir o'r gost o weithredu'r polisi ar gael tan Hydref / Tachwedd 2016. Pwysleisiodd y Prif Weithredwr bwysigrwydd

sicrhau bod polisi teg a chyfreithiol yn ei le, gan gynghori na ddylai ansawdd y polisi gael ei beryglu oherwydd goblygiadau cyllidebol. Pwysleisiodd y Cynghorydd Meirick Davies bwysigrwydd ymgynghori â rhieni yn ystod y broses adolygu ac awgrymodd y dylid archwilio cyfleoedd cydweithio gydag awdurdodau cyfagos. Manylodd y Cynghorydd Arwel Roberts ei bryderon ynghylch y llwybr ar gyfer disgyblion o Ruddlan i Ysgol Dewi Sant, Y Rhyl a'i ymdrechion i ddatrys y mater. Awgrymodd y Cynghorydd Eryl Williams, mewn achosion nad oedd yn gymwys ar gyfer darpariaeth statudol, y dylai ysgolion chwilio am gyllid allanol ar gyfer darpariaeth cludiant ysgol

- Ystyriodd y Cabinet a fyddai rhinwedd mewn cyhoeddi costau incwm a gweithredu canolfannau hamdden unigol o gofio eu cynaliadwyedd ariannol. Nodwyd y gallai echdynnu'r costau perthnasol fod yn anodd o ystyried bod y canolfannau hamdden yn cael eu rheoli fel endidau ar wahân, ac na fyddai lefelau incwm o ganolfannau hamdden sy'n gysylltiedig ag ysgolion gyn uched. Cytunwyd y gallai'r Cyngor fod yn fwy tryloyw wrth gyhoeddi gwybodaeth o'r fath ond byddai angen amodau i sicrhau nad oedd y ffigurau yn gamarweiniol.

***PENDERFYNWYD:-***

*(a) Bod y Cabinet yn nodi'r sefyllfa alldro refeniw derfynol ar gyfer 2015/16 a chymeradwyo'r driniaeth arfaethedig o gronfeydd wrth gefn a balansau fel y manylir yn yr adroddiad ac yn Atodiadau 1, 2 a 3, sydd ynghlwm â'r adroddiad, a*

*(b) Bod y Cabinet yn sefydlu grŵp tasg a gorffen i adolygu lefel balansau ysgolion a deall y ffactorau sy'n cyfrannu at y lefelau hynny.*

**9 ADRODDIAD CYLLID**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, adroddiad yn rhoi manylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth gyllidol y cytunwyd arni. Rhoddodd y crynodeb canlynol o sefyllfa ariannol y Cyngor-

- cyllideb refeniw y Cyngor ar gyfer 2016/17 heb unrhyw amrywiannau i adrodd ar y cam hwn yn y flwyddyn ariannol
- cytunwyd ar arbedion o £5.2m yn fel rhan o'r gyllideb ac yn y cyfnod cynnar hwn mae 42% eisoes wedi ei gyflawni, gyda 25% arall yn gwneud cynnydd da; roedd nifer o arbedion yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd a byddai'r canlyniadau'n cael eu cynnwys mewn adroddiadau monitro yn y dyfodol
- amlinellwyd nifer o bwysau o fewn y gyllideb gyffredinol y mae angen i wasanaethau penodol gymryd camau rheoli arnynt
- diweddariad cyffredinol ar y Cyfrif Refeniw Tai, y Cynllun Cyfalaf Tai a'r Cynllun Cyfalaf (gan gynnwys elfen y Cynllun Corfforaethol).

Yn dilyn canlyniad refferendwm yr UE i adael yr UE, rhoddwyd sicrwydd bod rheolaeth trysorlys y Cyngor yn cael ei fonitro'n agos ac nid oedd llawer o berygl i brosiectau y cytunwyd arnynt yn y Cynllun Cyfalaf o ystyried bod cyllid eisoes wedi'i ddyrannu. Roedd risgiau sy'n deillio o grantiau refeniw a ategwyd atynt gan arian yr UE yn gyfyngedig o ystyried yr amseru rhwng cylchoedd ariannu'r UE. Roedd cyfarfod rhwng Trysoryddion Cymru yn cael ei gynnal yn ddiweddarach yn yr

wythnos i drafod yr effaith ar gyllid yn y dyfodol. Cytunwyd i drafod y mater ymhellach unwaith y byddai'r sefyllfa'n dod yn fwy hysbys.

Mewn ymateb i gwestiynau dywedwyd wrth yr aelodau byddai'r ganran o arbedion heb eu cyflawni yn 2015/16 yn debygol o gael eu cyflawni yn 2016/17 a'u bod o ganlyniad i broblemau o ran amseru. Roedd cynllun wrth gefn ar waith i ryddhau'r arbedion hynny'n llif arian parod. Roedd gwaith pellach yn cael ei wneud ar yr arbedion sy'n weddill, ac yn dilyn hynny byddai diweddariad yn cael ei ddarparu. O ran rheoli trysorlys, roedd y gyfradd enillion ar fuddsoddiadau wedi bod yn gyson yn llai nag 1% dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2016/17 a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth gyllidol y cytunwyd arni.*

## 10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w ystyried a nododd yr aelodau'r ychwanegiadau/ diwygiadau canlynol -

- Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys - Gorffennaf
- Strategaeth ar Gyfer Atal a Chanfod Twyll, Llygredigaeth a Llwgrwobrwyaeth - Gorffennaf
- Datblygu Ysgolion Tref Rhuthun - Gorffennaf
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol - Gorffennaf
- Darpariaeth Uwchradd yn Seiliedig ar Ffydd - symud o fis Gorffennaf i fis Medi
- Hen Ysbyty Gogledd Cymru (CPO) - dyddiad yn y dyfodol i'w gadarnhau
- Adolygiad o Wasanaethau Gofal Mewnol - dyddiad yn y dyfodol i'w gadarnhau

***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.*

**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

***PENDERFYNWYD*** *dan ddarpariaethau Adran 100A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.*

## 11 FFRAMWAITH CYNNAL A CHADW ADWEITHIOL (MÂN WAITH)

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill adroddiad cyfrinachol yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i benodi contractwyr i'r Fframwaith Cynnal a Chadw adweithiol.

Roedd y fframwaith wedi cael ei pharatoi yn dilyn y newidiadau yn y rheolau caffael o ran y defnydd o restrau cymeradwy ac roedd y tendr wedi cael ei rannu yn bedair lot. Tynnwyd sylw'r Cabinet at y contractwyr arfaethedig, y rhan fwyaf ohonynt yn lleol. Fel pwynt o gywirdeb, cynghorwyd yr aelodau bod cyfanswm gwerth amcangyfrifedig y gwaith dros bedair blynedd yn £11.4m ac nid fel y nodwyd yn yr adroddiad. Ymatebodd y Rheolwr Eiddo i gwestiynau gan aelodau ynghylch y broses newydd ar gyfer mân waith, gan gynnwys manteision cymunedol, ynghyd ag

agweddau o fonitro ac adolygu perfformiad. Cadarnhaodd hefyd fod y fframwaith yn cwmpasu gwaith ar holl stoc adeiladau corfforaethol y Cyngor, gan gynnwys ysgolion.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo penodi'r contractwyr i'r Fframwaith fel y manylir yn Atodiad 1 yr adroddiad.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.50 p.m.